Ymweliadau hunandywys yn RSPB Conwy

Mae RSPB Conwy yn cynnig mynediad am ddim i grwpiau ysgol dan arweiniad athrawon sy'n ymweld â'r warchodfa. **Rhaid trefnu eich ymweliad ymlaen llaw drwy'r ffurflen ar ein gwefan.** Mae'r telerau ac amodau ynghyd â'r manylion llawn i'w gweld **yma**.

Mae ymweliadau hunandywys ag RSPB Conwy ar gael yn ystod y tymor ar ddydd Llun, dydd Mawrth, prynhawniau Iau a dydd Gwener. Mae croeso i grwpiau o hyd at **45 o ddisgyblion** archebu ymlaen llaw ar **ddydd Llun, dydd Mawrth a dydd Gwener rhwng 9.45am a 3.30pm, ac o 12:30pm ar ddydd Iau.**

Argymhellir yn gryf eich bod yn ymweld â'r warchodfa ymlaen llaw er mwyn paratoi asesiad risg trylwyr. Ewch i **RSPB Conwy** i gael rhagor o wybodaeth am y cyfleusterau yn y warchodfa.

Cyfleusterau ychwanegol sydd ar gael ar gyfer ymweliadau ysgol hunandywys

Cyfleusterau	Gwybodaeth ychwanegol
Parcio Bysiau	Mae'r maes parcio am ddim gyda lle i ddau fws ar y mwyaf. Gwnewch gais am le i fws, os oes angen, wrth archebu. Archebwch eich ymweliad yma. **Defnyddiwch y cyfeiriad:** Gwarchodfa Natur RSPB Conwy, Cyffordd Llandudno, Conwy, LL31 9XZ What3Words: year.shears.subplot
Toiledau	Mae'r toiledau y tu ôl i'r caffi ac mae pob un yn giwbicl unigol sy'n agor yn syth i'r tu allan. Dylai disgyblion gael eu **goruchwylio bob amser** a dylid gadael y cyfleusterau (sy'n cael eu defnyddio gan bob ymwelydd) yn yr un cyflwr ag yr oeddent pan gyrhaeddoch chi. Rydyn ni'n argymell bod **disgyblion yn cael eu trefnu mewn grwpiau bach** wrth ddefnyddio'r cyfleusterau hyn gyda dim mwy na 10 o blant yn ciwio ar unrhyw adeg benodol.
Lle i ginio	Mae digon o fyrddau picnic yn yr awyr agored i bob ymwelydd eu defnyddio (does dim gorchudd dros yr un ohonyn nhw). Does dim ardal bicnic dan do ar gael. Ewch â'ch sbwriel gyda chi gan nad oes biniau ar y safle.

Ardaloedd yn y warchodfa sy'n addas ar gyfer grwpiau ysgol	• **Cadwch at y llwybrau sydd wedi'u marcio** o amgylch y warchodfa. Dylid paratoi asesiad risg trylwyr ar gyfer eich llwybr o amgylch y safle. • Mae pob llwybr yn addas ar gyfer teithiau cerdded/gweithgareddau dan arweiniad athrawon. • Mae croeso i grwpiau ysgol (hyd at 30 o ddisgyblion) ddefnyddio ochr dde cuddfan Tal y Fan (mae ardal dan do yn cynnig lle ychwanegol). Nid yw'r cuddfannau eraill ar gael i'w defnyddio gan ysgolion. Edrychwch ar y Map llwybr cyffredinol, Map teulu a chwarae a Map mynediad i gael manylion. • Yn anffodus, dydyn ni ddim yn caniatáu chwilota mewn pyllau dŵr heb oruchwyliaeth yn RSPB Conwy oherwydd y posibilrwydd y bydd rhywogaethau goresgynnol yn lledaenu. • Mae ardal bwydo adar rhwng mis Tachwedd a mis Ebrill y gall ysgolion ymweld â hi.
Hygyrchedd	• Mae'r safle'n hygyrch iawn, gyda llwybrau gwastad yn bennaf. Mae'r ganolfan ymwelwyr i gyd ar un lefel hefyd (ewch i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth). • Sylwch, mae angen cod allwedd i agor y giât ar ddiwedd llwybr y Crëyr Glas i bramiau, cadeiriau olwyn a sgwteri symudedd gael mynediad. • Mae dau doiled hygyrch ar y safle. • Mae'r map mynediad yn dangos graddiannau llwybrau.
Siop a chaffi	• Siop y Warchodfa - **trefnwch fynediad gyda thîm y safle wrth gyrraedd, a threfnwch eich dosbarth yn grwpiau bach o ddim mwy na 10 disgybl ar y tro.** • Caffi - does dim seddi ar gael y tu mewn i'r caffi ar gyfer grwpiau ysgol. Gellir archebu hufen iâ bythefnos ymlaen llaw a'u casglu i'w bwyta y tu allan. Mae croeso i oedolion ddod i mewn i'r caffi i brynu lluniaeth i'r staff.
Signal ffôn	Mae signal ffonau symudol yn dda ar y cyfan ar draws safle RSPB Conwy.
Gwybodaeth ymlaen llaw sydd ei hangen	Wrth archebu neu ar ôl eich ymweliad safle ymlaen llaw, rhowch wybod pa weithgareddau rydych chi'n bwriadu eu gwneud ac a oes angen rhannau penodol o'r warchodfa (i sicrhau bod modd cael mynediad atyn nhw oherwydd gwaith cynnal a chadw ac ati)

Dangoswch eich ffurflen cadarnhau ymweliad yn y ganolfan ymwelwyr pan fyddwch yn cyrraedd. Bydd aelod o'r tîm yn eich gadael i mewn drwy'r giât ochr.

Diolch am fynd â'ch holl sbwriel adref gyda chi.

Self-led visits at RSPB Conwy

RSPB Conwy in North Wales offers free access to teacher-led school groups visiting the reserve. **The visit must be prebooked via the form on our website**. Full details and terms and conditions can be found **here**.

Self-led school visits to RSPB Conwy are available during term time on Mondays, Tuesdays, Thursday afternoons and Fridays. Pre-booked groups of up to **45 pupils** are welcome on **Mondays, Tuesdays and Fridays** between **9.45 am and 3.30pm, and from 12.30pm on Thursdays.**

A pre-visit to the reserve is strongly recommended to prepare a thorough risk assessment. Please go to **RSPB Conwy** to find out more about the facilities at the reserve.

Additional facilities available for self-led school visits

Facilities	Additional information
Coach parking	Car parking is free with space for 2 coaches maximum. Please request a coach space, if required, when booking. Book your visit here. **Use the address**: RSPB Conwy Nature Reserve, Llandudno Junction, Conwy, LL31 9XZ What3Words: year.shears.subplot
Toilets	The toilets are located towards the rear of the café and are all individual cubicles that open straight to the outside. Pupils should be **supervised at all times** and the facilities (which are used by all visitors) should be left in the condition you found them in. We recommend that **pupils are organised in small groups** when accessing these facilities with no more than 10 children queueing at any one time.
Lunch space	There are plenty of outdoor picnic tables for all visitors to use (none are covered). No indoor picnic is available. Please take your rubbish away with you as there are no bins on site.

Areas of the reserve suitable for school groups	• Please **keep to the waymarked trails** around the reserve. A thorough risk assessment should be prepared for your route around the site. • All trails are suitable for teacher-led walks/activities. • School groups (up to 30 pupils) are welcome to use the right-hand side of Tal y Fan hide (a covered area provides an overflow space). The other hides are not available for school use. Please see the General trail map, Family and play map and Access map for details. • Unfortunately, we don't allow unsupervised pond dipping at Conwy due to the potential spread of invasive species. • There is a bird feeding area between November-April which schools can visit.
Accessibility	• The site is very accessible, with predominantly flat paths. The visitor centre is also all on one level (see our website for more information). • Please note that for pushchairs, wheelchairs and mobility scooter access, a key code is required to open the gate at the end of the Grey Heron trail. • The site has two accessible toilets. • The access map shows path gradients.
Shop and café	• Reserve shop - **please arrange access with the site team on arrival and organise your class into small groups of no more than 10 pupils at a time.** • Café - no seating is available inside the café for school groups. Ice creams can be pre-ordered two weeks in advance and collected to be consumed outside. Adults are welcome to come into the café to purchase take-out refreshments for staff.
Phone reception	Mobile phone reception is generally good across the RSPB Conwy site.
Advance information required	Upon booking or after your site pre-visit, please advise what activities you plan to do and if specific areas of the reserve are required (to ensure they aren't inaccessible due to maintenance etc).

Please present your booking confirmation at the visitor centre when you arrive. A member of the team will let you in via the side gate.

Thank you for taking all your litter home with you.